# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 17 Gorffennaf 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

## 224(v3)

### 1 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Ni chafwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

### 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol – Blaenoriaethau Brexit

(30 munud)

## 6 Adroddiadau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Ni chyflwynwyd cynigion

## 7 Cynnig i nodi'r adroddiad blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2018 - 19

(30 munud)

**NDM7126** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â pharagraff 8 (8) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

Yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 10 Gorffennaf 2019.

## 8 Dadl ar yr adroddiad ar y cyd rhwng y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau; a'r Pwyllgor Cyllid: Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol

(60 munud)

**NDM7119** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad ar y cyd y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, sef 'Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mawrth 2019.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mai 2019.

**Cyd-gyflwynwyr**
Lynne Neagle (Torfaen)
John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Barn Comisiynydd Plant Cymru am Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y pwyllgor ar y cyd: 'Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol' - 28 Mehefin 2019 (Saesneg yn unig)

Barn y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol am Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y pwyllgor ar y cyd: 'Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol' - 28 Mehefin 2019

Barn Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru am Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y pwyllgor ar y cyd: 'Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol' - 1 Gorffennaf 2019 (Saesneg yn unig)

## 9 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Awtistiaeth

(60 munud)

**NDM7124** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cyhoeddi adroddiad terfynol y Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig ar 1 Ebrill 2019.

2. Yn nodi ymhellach y datganiad ysgrifenedig a wnaed gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a gyhoeddwyd ar 3 Ebrill 2019.

3. Yn gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi pleidleisio yn erbyn rhoi'r Bil Awtistiaeth (Cymru) ar waith.

4. Yn cydnabod er bod adroddiad blynyddol y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig 2018-2019 yn amlinellu dull Llywodraeth Cymru o ddatblygu gwasanaethau awtistiaeth yng Nghymru, bod diffyg mesurau canlyniadau o fewn yr adroddiad ar gyflawni'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig 2016.

5. Yn cydnabod, er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud i wella gwasanaethau awtistiaeth yng Nghymru, bod anghysonderau yn y gwasanaeth a'r cymorth a gynigir sy'n effeithio ar ganlyniadau i bobl awtistig a'u teuluoedd.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y gwasanaeth awtistiaeth integredig ac i ddarparu gwasanaethau cefnogi awtistiaeth o ansawdd uchel drwy:

a) darparu cymorth a gwasanaethau digonol i bobl awtistig a'u teuluoedd sy'n adlewyrchu'r ystod eang o anghenion a allai fod ganddynt; sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni disgwyliadau defnyddwyr ac yn cryfhau llais awtistiaeth drwy fynd y tu hwnt i ymwybyddiaeth o awtistiaeth at rymuso awtistiaeth;

b) datblygu system fonitro glir a chyson er mwyn gallu adrodd yn fwy effeithiol ar ganlyniadau ar gyfer pobl awtistig;

c) egluro'r trefniadau ariannu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth awtistiaeth integredig y tu hwnt i'r cyfnod ariannu cychwynnol, sef Mawrth 2021, er mwyn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr gwasanaethau;

d) rhoi'r gwasanaeth awtistiaeth integredig o fewn dull ehangach i gefnogi pobl awtistig a chyflawni'r 'blaenoriaethau gweithredu' a amlinellir yn y Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, gan gynnwys cynyddu cyfleoedd addysg a chyflogaeth;

e) gweithio i weithredu argymhellion y Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig -1 Ebrill 2019

Datganiad Ysgrifenedig: Gwerthusiad Annibynnol o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol a'r Cynllun Gweithredu Strategol Newydd ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, 3 Ebrill 2019

Bil Awtistiaeth (Cymru)

Llywodraeth Cymru, Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig - Adroddiad Blynyddol 2018/19 , 5 Gorffennaf 2019

Llywodraeth Cymru, Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, 2016

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddechrau'r cynnig ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn credu, er mwyn i bobl ag awtistiaeth gael y gwasanaethau gorau posibl, fod angen ystyried niwroamrywiaeth fel mater cydraddoldeb ynddo'i hun, a bod cael ymennydd nad yw'n niwronodweddiadol yn dod yn nodwedd warchodedig o dan ddeddfwriaeth cydraddoldebau, gyda gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb yn unol â hynny.

**Gwelliant 2 – Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu pwynt 3 ac ailrifo’n unol â hynny.

**Gwelliant 3 – Rebecca Evans (Gwyr)**

Ym mhwynt 6, dileu popeth ar ôl is-bwynt a, a rhoi yn ei le:

adeiladu ar y gwaith monitro sy’n bodoli o fewn gwasanaethau er mwyn gallu adrodd yn fwy effeithiol ar ganlyniadau ar gyfer pobl awtistig;

egluro'r trefniadau ariannu yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth awtistiaeth integredig y tu hwnt i'r cyfnod ariannu cychwynnol, sef Mawrth 2021, unwaith y byddwn wedi cael yr eglurder yr ydym yn disgwyl amdano oddi wrth Lywodraeth y DU ynglŷn â’n setliad ar gyfer 2020-21 a thu hwnt i hynny;

rhoi'r gwasanaeth awtistiaeth integredig o fewn dull ehangach i gefnogi pobl awtistig a chyflawni'r 'blaenoriaethau gweithredu' a amlinellir yn y Diweddariad o’r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau’r Sbectrwm Awtistig, gan gynnwys cynyddu cyfleoedd addysg a chyflogaeth;

gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i weithredu argymhellion y Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig.

## 10 Cyfnod pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7125** Mark Reckless (Dwyrain De Cymru)

Datganoli Treth

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 17 Medi 2019

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 10/07/2019 i'w hateb ar 17/07/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

**Sian Gwenllian** *Arfon*

1 OAQ54241

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar ba gymorth sydd ar gael i brosiectau ynni dwr?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

2 OAQ54260

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gymuned ffermio yng nghanolbarth Cymru?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

3 OAQ54267

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu pryfed peillio?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

4 OAQ54285

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith y bydd y system taliadau fferm newydd arfaethedig yn ei chael ar yr economi wledig?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

5 OAQ54244

**(e)**

Pa fesurau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno i gefnogi ffermwyr Cymru yn y deuddeg mis nesaf?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

6 OAQ54272

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ynni adnewyddadwy yng Ngorllewin De Cymru?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

**7** OAQ54250

**(e)**

Oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i adolygu deddfwriaeth bridio cŵn?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

**8** OAQ54263

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymgysylltu â chymunedau i warchod bioamrywiaeth?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

**9** OAQ54266

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella lles adar hela a gaiff eu magu at ddibenion chwaraeon?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

**10** OAQ54280

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o fanteision Diwrnod Aer Glân i genedlaethau iau yn Islwyn?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

**11** OAQ54282

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i warchod bioamrywiaeth yn Nwyrain De Cymru?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

**12** OAQ54276

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn asesu ei berfformiad er mwyn osgoi camgymeriadau'r gorffennol?

# Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

**1** OAQ54279

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Post Brenhinol yn dilyn lansio'i strategaeth pum mlynedd?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

2 OAQ54248

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymyriadau Llywodraeth Cymru i leihau nifer yr achosion o danau gwyllt?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

3 OAQ54251

**(e)**

Pa newidiadau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i'w pholisïau tai a chynllunio o ganlyniad i ddatgan argyfwng hinsawdd?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

4 OAQ54262

**(e)**

Sut y bydd y Gweinidog yn ymateb i ddatganiadau o blaid annibyniaeth Cymru sy'n dod i'r amlwg gan rai cynghorau yng Nghymru?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

5 OAQ54281

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y cynllun Cymorth i Brynu yng Nghymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

6 OAQ54255

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y system gynllunio yng Nghymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

7 OAQ54249

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau anstatudol gan awdurdodau lleol?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

8 OAQ54284

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith y byddai dileu'r gallu i landlordiaid weithredu troi allan heb fai, yn ei chael ar y sector rhentu?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

9 OAQ54268

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith Safon Ansawdd Tai Cymru ar eiddo yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

**10** OAQ54245

**(e)**

Pa fentrau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried i fynd i'r afael â'r broblem cysgu allan yng Nghymru?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

**11** OAQ54269

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio llywodraeth leol?

**Bethan Sayed** *Gorllewin De Cymru*

**12** OAQ54277

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd Llywodraeth Cymru o ran mynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru?